


# Coronafeirws a Fi:

Ymatebion i'r Arolwg gan  
bobl ifanc 15-18 oed



Ar 13 Mai 2020, lansiwyd yr arolwg 'Coronafeirws a Fi' i gael gwybod am brofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd yr arolwg hwn yn casglu gwybodaeth am fywydau dros 23,700 o blant 3-18 oed, ac fe'i cynhaliwyd am gyfnod o bythefnos ar adeg pan oedd y cyfyngiadau i gadw cymunedau yng Nghymru'n ddiogel wedi bod ar waith ers deufis.



- **Llywodraeth Cymru**
- **Comisiynydd Plant Cymru**
- **Senedd Ieuencid Cymru**
- **Plant yng Nghymru**

Swyddfa'r Comisiynydd Plant oedd yn arwain yr holl waith rheoli prosiect, gydag annibyniaeth ariannol ar Lywodraeth Cymru a'r partneriaid eraill. Y Comisiynydd Plant yw perchennog data'r prosiect hwn, ac sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Yn gynnar ym mis Mehefin 2020 fe gyhoeddod ni adroddiad gyda phenawdau canfyddiadau'r arolwg hwn<sup>1</sup>. Yn yr adroddiad hwnnw fe wnaethon ni ymrwymo i ddadansoddi'r canfyddiadau ymhellach. Un llinyn dadansoddi rydyn ni wedi'i ddilyn yw archwilio effaith y cyfyngiadau ar fywyd pob dydd i bobl ifanc 15-18 oed yng Nghymru. Rydyn ni hefyd yn cynhyrchu adroddiadau ar ganfyddiadau'r arolwg gan blant, yn ôl grŵp ethnig a nodwyd ganddyn nhw eu hunain, a phlant a phobl ifanc a ddywedodd fod ganddynnt anableddau.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu'r profiadau y clywson ni amdanyn nhw gan gyfanswm o 4,417 o bobl ifanc 15-18 oed, sy'n cynrychioli 18.6% o holl ymatebwyr yr arolwg. Lluniwyd yr arolwg

gwreiddiol fel arolwg eang i'r boblogaeth gyfan, a daw'r adroddiad hwn o is-set o'r data cyffredinol. Roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio ar brofiadau eang am y rheswm hwn, ac er i ni ofyn rhai cwestiynau am blant oedd yn derbyn addysg mewn man heblaw'r ysgol, oedd yn cael eu haddysgu gartref, mewn coleg neu brifysgol, a phrentisiaethau a hyfforddiant, mae mwyafrif yr ymatebion yn adlewyrchu profiadau plant sydd fel arfer yn cael eu haddysgu mewn ysgol. Rydyn ni wedi cydnabod hyn yn y papur ac wedi ceisio casglu profiadau'r holl bobl ifanc yn y grŵp oedran yma lle bynnag y bo modd. Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio'n benodol at y profiad mewn ysgol, ac felly mae'r dadansoddiad o'r ymatebion hynny wedi'i gyfyngu i'r ymatebwyr hynny'n unig.

Gwnaed y gwaith dadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn yn fewnol gan staff y Comisiynydd.

### **Diolchiadau**

Hoffem ni ddiolch i Sylfaen Cymunedol a Colegau Cymru am adolygu'r papur hwn a rhoi eu cyngor arno cyn ei gyhoeddi.

1. Comisiynydd Plant Cymru (2020) Coronafeirws a Fi. Ar gael yn: [https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL\\_formattedCVRep\\_EN.pdf](https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf)

Rhagair gan

# Sally Holland

## Y Comisiynydd Plant

Comisiynydd Plant Cymru  
Hydref 2020

Mae'r briffiad hwn yn edrych yn fanwl ar brofiadau pobl ifanc 15-18 oed a ymatebodd i'n harolwg, Coronafeirws a Fi. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mai 2020 – ymhell cyn sefyllfa ddadleuol canlyniadau'r arholiadau – ond mae'n datgelu bod yr elfennau o ansicrwydd roedd y grŵp oed yma'n eu hwynebu wedi cychwyn ymhell cyn diwrnod y canlyniadau. Am flynyddoedd roedd y bobl ifanc hyn wedi cael clywed am bwysigrwydd TGAU, lefel A a chymwysterau galwedigaethol cyfatebol. Yn y briffiad hwn, rydyn ni'n archwilio teimpladau pobl ifanc am ganslo'r arholiadau.

Ond nid dim ond arholiadau sy'n ganolog i fywydau'r bobl ifanc hyn, ac mae'r un peth yn wir am y briffiad yma.

O ganlyniad i bandemig y Coronafeirws a mesurau iechyd cyhoeddus, mae plant hŷn wedi profi newid sylweddol yn sut maen nhw'n byw eu bywydau, yn amrywio o sut maen nhw'n gweld eu ffrindiau a'u teulu, i sut maen nhw'n dysgu, yn mynd i'r gwaith ac yn cefnogi eu teuluoedd. Er nad yw llawer o bobl ifanc yr oed yma wedi bod yn pryderu am ddiodef o'r Coronafeirws eu hunain, maen nhw wedi dangos consyrn ynghylch aelodau bregus o'u teuluoedd a'u cymunedau, ac wedi dangos i ni eu bod yn wynebu elfennau aruthrol o ansicrwydd yn eu dyfodol. Mae amharu ar yr arholiadau, diwedd sydyn i fywyd yn yr ysgol a'r coleg i lawer, ansicrwydd economaidd, a beth mae rhai pobl ifanc wedi sôn amdano fel cyngor ac arweiniad aneglur gan y Llywodraeth, i gyd yn amlwg wedi cael effaith sylweddol ar ganfyddiad y grŵp yma o bobl ifanc o'r dyfodol.


Rwy'n falch bod pobl ifanc wedi rhannu yn yr arolwg hwn sut maen nhw wedi defnyddio'r cyfnod yma i fod yn dosturiol, yn gynhyrchiol ac yn greadigol, a bod cynifer ohonynt wedi dangos cadernid yn wyneb newid digynsail. Ond allwn ni ddim anwybyddu'r ffaith bod pobl ifanc wedi rhannu gyda ni sut mae'r ansicrwydd yma wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd emosiynol a meddyliol, sut maen nhw ar adegau wedi teimlo'n ddigymhelliad oherwydd diffyg eglurder ynghylch eu haddysg, na'u bod am gael sicrwydd na fydd eu rhagolygon i'r dyfodol – o ran addysg a chyflogaeth – o dan anfantais yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Mae'r dyfyniad canlynol, sy'n dod o'r briffiad, yn amlygu'r cythrwfl aruthrol mae ein pobl ifanc wedi'i wynebu:

**“Methu gweld teulu a ffrindiau, yn arbennig fy nghariad. Dydw i ddim wedi gallu gweld y babi newydd sy'n gefnder i fi, doeddwn i ddim yn gallu mynd i angladd mam-gu ... mae wedi bod yn anodd ofnadw. A hynny i gyd ochr yn ochr ag ansicrwydd cael fy ngraddau i fynd i'r brifysgol, a gwybod a fydd y brifysgol yn cychwyn ym mis Medi, hyd yn oed, mae wedi bod yn 7 wythnos anodd iawn.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

# Arolwg Coronafeirws a Fi: Ymatebion gan bobl ifanc 15-18 oed



**Mae'r papur briffio yma'n defnyddio gwybodaeth a roddwyd i'r arolwg Coronafeirws a Fi gan bobl ifanc 15-18 oed yn unig. Cafodd pobl ifanc o'r grŵp oed yma eu gwahodd i gyfranogi yn ein harolwg 12-18 oed, neu ein harolwg Hygyrch (symbolau) (7-18).**

Cawson ni ymatebion gan 4,377 o bobl ifanc 15-18 oed i'n Harolwg 12-18 oed. O'r rheiny, roedd 41% yn 15 oed, 28% yn 16, 21% yn 17 ac 11% yn 18. Roedd 85% yn yr ysgol, 11% yn y coleg neu'r brifysgol, 2% yn hyfforddeion neu'n brentisiaid, gydag 1% yn cael eu haddysgu gartre ac 1% heb fod mewn addysg.

Cymerodd 40 o bobl ifanc 15-18 oed ran yn ein harolwg hygyrch. Roedd y fersiwn hon o'r arolwg wedi'i bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc oedd ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai oedd yn ffafrio arolwg gyda llai o ddarllen, ac roedd yn cynnwys symbolau i helpu pobl ifanc i ddeall cynnwys yr arolwg. O'r 40 o bobl ifanc hynny, roedd 25% yn 15 oed, 28% yn 16, 23% yn 17 a 25% yn 18. Ar hyd y ddogfen hon, mae'r canrannau'n dod o blith y bobl ifanc 15-18 oed a atebodd yr arolwg 12-18 oed, oni nodir fel arall. Y rheswm am hynny yw bod y cwestiynau wedi'u geirio ychydig yn wahanol ym mhob arolwg. Defnyddir ymatebion testun rhydd o'r ddau arolwg, fodd bynnag, a lle mae hynny'n bosibl rydyn ni wedi defnyddio canfyddiadau ystadegol o'r ddau arolwg i ddangos elfennau tebyg neu wahaniaethau o ran profiadau, lle gofynnwyd cwestiynau tebyg i'r bobl ifanc. Roedd yr arolwg hygyrch yn agored i bob person ifanc 7-18 oed, felly wnaethon ni ddim gofyn cwestiynau penodol am arholiadau yn y fersiwn hon.

**Nodyn ar derminoleg:** Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Mai 2020, pan oedd y cyfyngiadau llymaf yn dal yn eu lle. Yn ystod y cyfnod hwn roedd llawer o bobl ifanc yn methu mynychu eu lleoliadau addysg, gan eu bod ar gau dros dro yn ystod y cyfnod yma, ac eithrio cynnig darpariaeth i blant yr oedd eu rhieni'n "weithwyr allweddol" a dysgwyr agored i niwed. Dyma pam y buon ni'n holi pobl ifanc yn ein harolwg am gau eu lleoliadau addysg, gan fod eu lleoliadau ddim ar agor iddyn nhw eu mynychu yn achos llawer ohonyn nhw. Fe wnaethon ni osgoi defnyddio'r term "cyfnod clo" hefyd gan fod rhai plant yn ansicr o'r term yma neu roedd yn achosi pryder iddyn nhw. Rydyn ni'n ymwybodol, fodd bynnag, nad oedd lleoliadau "ar gau" a'u bod mewn gwirionedd yn gweithredu o bell ac mewn ffordd wahanol i'r cyfnod blaenorol. Roedd defnyddio'r term "ar gau" yn ffordd hygyrch o gasglu profiadau llawer o bobl ifanc ar yr adeg hon.

# Teimladau am y Coronafeirws a'r effaith ar fywydau pobl ifanc



Dywedodd ychydig dros chwarter (28%) o'r bobl ifanc 15-18 oed eu bod nhw ddim yn pryderu am y Coronafeirws ar ddiwrnod gwneud yr arolwg. Dywedodd 46% o'r ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo'r un fath â'r wythnos o'r blaen a dywedodd 16% eu bod yn teimlo'n fwy pryderus na'r wythnos flaenorol. Yn achos y rhai a ymatebodd i'n harolwg hygyrch, dywedodd 15% eu bod nhw ddim yn pryderu am y Coronafeirws ar ddiwrnod yr arolwg. Dywedodd 31% o'r rhain eu bod nhw'n pryderu mwy na'r wythnos flaenorol.

Yn yr ymatebion testun rhydd, rhannodd rhai pobl ifanc eu bod, er nad oedden nhw'n poeni'n ormodol am y feirws, yn pryderu am ei effaith bosibl ar eraill, megis aelodau hŷn o'u teulu, ac roedd llawer yn pryderu am yr ansicrwydd ynghylch y dyfodol.

Yn ein dadansoddiad o'r 3,221 o ymatebion testun rhydd, fe ddefnyddion ni fframwaith codio i geisio deall pam roedden nhw'n teimlo fel roedden nhw. O'r ymatebion testun rhydd hynny, dywedodd 16% fod ganddyn nhw ffydd yn y canllawiau, tra bod 11% yn pryderu am ddychwelyd i normal, a 6% yn pryderu nad oedd y Coronafeirws yn gwella. Dywedodd 5% wrthyn ni eu bod nhw'n pryderu am aelod o'r teulu, a dywedodd 5% wrthyn ni eu bod nhw'n pryderu am bobl yn gwrthod dilyn y rheolau. Dywedodd 4% fod dim pwynt pryderu.

Yn yr ymatebion testun rhydd hyn, dangosodd llawer o bobl ifanc ymdeimlad cryf o ddeall pam roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, roedden nhw'n dilyn y canllawiau er mwyn cadw'n ddiogel, ac yn ymdrechu i gadw'n brysur a bod yn gynhyrchiol gartre. Dangosodd yr ymatebion testun rhydd fod rhai nid yn unig yn pryderu am eu dyfodol eu hunain, o ran cyfleoedd cyflogaeth ac addysg, ond hefyd yn pryderu am yr effaith ar eraill a chyflwr y genedl.

**“Cyfnod anhysbys, ofnadwy, methu gweld unrhyw deulu na ffrindiau, methu cwtsho, methu cyffwrdd, methu dathlu pen-blwydd fy holl ffrindiau yn 18, methu gwneud fy arholiadau ar ôl 2 flynedd o lefel A, methu gorffen fy misoedd olaf yn yr ysgol ar ôl 7 mlynedd, mae pobl yn marw, a dyw'r llywodraeth ddim yn gwneud digon o bell ffordd.”**

— (Bachgen, 18, Gogledd Cymru)

**“Rwy'n poeni am y feirws, nid bod e'n mynd i effeithio ar fy iechyd i, achos rydw i'n ifanc ac yn ffit ac wedi bod yn cadw'n saff, ond yn poeni sut bydd yn effeithio ar fy mywyd. Alla i ddim ffeindio swydd, a dwi i fod i fynd i'r brifysgol ym mis Medi.”**

— (Merch, 18, De-orllewin Cymru)

**“Er bod pethau i bryderu amdany’n nhw, fel yr effaith ar iechyd a’r economi, dydw i ddim yn teimlo mod i’n pryderu am COVID-19 achos wi’n dilyn cyngor y llywodraeth.”**

— (Bachgen, 15, De-orllewin Cymru)

**“Mae nhad a mam yn dal mewn gwaith llawn amser. Mae nhad yn gweithio i drafnidiaeth (ALI) ac mae mam yn y byd manwerthu. Rydw i’n poeni falle un diwrnod byddan nhw’n dod â’r feirws adre ac yn rhoi e i fi a falle i bobl eraill etc. Bydd y bygythiad wastod yno os does dim brechlyn. Rydw i’n pryderu.”**

— (Bachgen, 17, De-ddwyrain Cymru)

**“Mae angen i fi allu mynd allan yn amlach pan fydd braidd neb o gwmpas... rydw i’n awtistig ac mae angen lleoedd tawel arna i... mae hynny’n gwneud i fi deimlo’n ddiogel... ond mae mwy o bobl ar y pafin a mwy o feiciau. Felly rydw i’n aros mewn mwy nawr.”**

— (Bachgen, 16, De-orllewin Cymru)

**“Mae dad yn weithiwr hanfodol felly mae e’n dal i fynd allan i weithio heb unrhyw offer diogelu o unrhyw fath achos bod e’n adeiladwr. Does dim byd i gefnogi ei fusnes chwaith, felly mae hynny’n golygu bod pryderon arian.”**

— (Dewis peidio nodi rhywedd, 15, De-orllewin Cymru)

**“Mae’r ddau riant gen i yn weithwyr allweddol, felly maen nhw mewn perygl o ddal y feirws a’i ledi. Dydw i ddim yn poeni llawer tra bod pobl yn dilyn y canllawiau.”**

— (Bachgen, 17, Canolbarth Cymru)

**“Rydw i’n poeni am tad-cu a mam-gu achos mae gan dad-cu gyflwr ar y sgyfaint. Pryderu am orfod mynd nôl i’r gwaith ar ôl cyfnod mor hir heb weld pobl. Mae gorbryder cymdeithasol yn erchyll.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

**“Rydw i’n poeni llawer am effaith y feirws yma ar bobl sy’n llai ffodus (y digartref, pobl sy’n defnyddio banciau bwyd) a’i effaith ar y gymdeithas gyfan.”**

— (Merch, 16, De-orllewin Cymru)

**“Rydw i’n pryderu llai na’r wythnos ddiwetha oherwydd bod cyfyngiadau symud am dair wythnos arall yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Rydw i’n teimlo’n fwy hyderus am gadw’n saff nawr mod i’n gwybod bydda i’n cael fy amddiffyn yn hirach.”**

— (Merch, 17, Canol De Cymru)

**“Does dim pwynt mewn pryderu, rydw i’n syml yn dilyn y polisiau sy’n dod gan y llywodraeth ac yn bwrw mlaen da mywyd.”**

— (Bachgen, 17, Canol De Cymru)

Wrth rannu pryderon neu bethau oedd yn gwneud iddyn nhw boeni am y Coronafeirws, roedd sawl person ifanc yn y grŵp oed yma’n dangos ymwybyddiaeth lefel uchel o ddatganoli a’r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan y pedair cenedl i reoli’r Coronafeirws. Mynegodd pobl ifanc rwystredigaeth a phryder yn eu hymatebion os oedd canllawiau’r Llywodraeth yn aneglur.

**“At ei gilydd, dyw’r pandemig ddim yn achosi llawer o bryder uniongyrchol i fi, ond rydw i yn poeni am sut mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi delio gyda’r sefyllfa. Rwy’n ymwybodol bod iechyd wedi datganoli yng Nghymru a’n bod ni wedi parhau â’r cyfyngiadau symud, ond mae gan lywodraeth y Deyrnas Unedig fwy o ddylanwad (briffiadau dyddiol, mwy o sylw yn y cyfryngau), felly mae mwy o bobl yn mynd i ddilyn beth maen nhw’n dweud.”**

— (Merch, 16, Gogledd Cymru)

**“Rydyn ni’n cael cyngor sy’n dweud yn groes o hyd gan gynulliad Cymru a llywodraeth y Deyrnas Unedig, rydw i’n meddwl bod angen mwy o gydweithio rhwng y 4 gwlad i wneud negeseuon yn gliriach.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

**“Mae’n rhwystredig iawn bod y canllawiau am sut i gadw’n saff rhag y feirws wedi bod yn anghyson, e.e. ein rheolau ni’n wahanol i rai Lloegr. Rwy’n deall pam fod gennym ni lywodraeth wedi datganoli ond rwy’n teimlo mai nawr yw’r adeg i’n gwlad gydweithio fel un. Roedd yn ddryslyd bod anerchiad y Prif Weinidog yn cyfeirio at y wlad gyfan, y 4 cenedl, ac yna bod newyddiadurwyr BBC Wales yn syth wedyn yn honni bod hynny ddim yn berthnasol i ni. Sut rydyn ni i fod i wybod pwy i drystio?”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

Yn ogystal â dangos ymwybyddiaeth o benderfyniadau gwleidyddol mewn perthynas â’r feirws ei hun, roedd nifer o sylwadau am yr amgylchedd, yn arbennig mewn ymateb i’r cwestiwn am bethau cadarnhaol o ganlyniad i fesurau “Aros Gartref” y Coronafeirws:

**“Rydw i’n dal i boeni beth fydd yn digwydd. Ond mae straen yr arholiadau wedi mynd mewn ffordd ac mewn gwirionedd rydw i’n eitha diolchgar am hynny. Fe weles i hefyd fod yr amgylchedd yn gwella? Rwy’n credu bod hynny’n anhygoel.”**

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

**“Mae’r amgylchedd yn elwa. Rydw i eisiau i’r wlad newid er gwell, nid cario mlaen fel o’r blaen.”**

— (Bachgen, 18, De-orllewin Cymru)

**“Rydw i’n gwybod bod y cyfnod clo yn gwneud rhyfeddodau i ansawdd aer, glendid dŵr, etc.”**

— (Bachgen, 16, De-orllewin Cymru)

**“Ddylai problemau eraill fel yr amgylchedd ddim cael eu gwthio o’r neilltu. Ar hyn o bryd rydyn ni’n gweld beth sy’n digwydd pan fyddwn ni’n gadael i broblem droi’n drychineb. Mae angen planed arnon ni ar gyfer ein dyfodol ein hunain a’n plant.”**

— (Merch, 17, Canol De Cymru)

**“Mae’n eglur bod pobl yn aros gartre a ffatrioedd yn cau wedi cael effaith aruthrol ar yr amgylchedd yn barod. Os nad yw’r coronafeirws yma’n agor ein llygaid i’r ffaith bod angen i’r llywodraeth gymryd camau i leihau llygredd, rwy’n ofni bydd dim byd yn digwydd byth.”**

— (Bachgen, 17, Gogledd Cymru)


**“Bod newid hinsawdd yn bod yn effeithiol mewn ffordd dda gyda llai o allyriadau nwy yn cael eu defnyddio.”**

— (Merch, 15, De-ddwyrain Cymru)

**“Rydw i’n poeni llawer am effaith y feirws yma ar bobl sy’n llai ffodus (y digartref, pobl sy’n defnyddio banciau bwyd) a’i effaith ar y gymdeithas gyfan.”**



# Mae rhai pobl ifanc wedi bod yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol



Roedd yn amlwg o ymatebion rhai pobl ifanc eu bod nhw wedi derbyn cyfrifoldebau ychwanegol yn ystod y cyfyngiadau llymaf 'Aros Adref'. Fe wnaethon nhw rannu gyda ni gymysgedd o brofiadau, fel gofalu am berthnasau bregus neu roi gofal iddyn nhw. Roedd rhai yn gofalu am siblingiaid iau, yn aml oherwydd bod eu rhieni'n gweithio.

Amlygodd hynny fod rhai pobl ifanc yn profi heriau o ran cydbwysu'u cyfrifoldebau, fel gofalu, cefnogi eraill a dysgu.

**"Achos mod i gyda'r Gofalwyr Ifanc mae'n anodd i fi achos does gen i ddim car ac all dad ddim dod mas. Mae rhaid i fi gerdded i'r siopau a nôl bwyd i fi, mam a dad."**

— (Person ifanc traws, 18, Canol De Cymru)

**"Rydw i'n ofalwr ifanc ar gyfer sibling, felly mae gen i fwy o gyfrifoldebau nag fel arfer, roedd hynny'n heriol, ac rwy'n meddwl bod angen trefnu llawer mwy o gefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc a'r plant fyddai fel arfer yn cael cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol. Mae plant sydd â chynllun gofal yn cael gofal plant yn yr ysgol, ond mae angen gwneud mwy ar gyfer y plant sydd heb gynllun gofal."**

— (Merch, 17, Gogledd Cymru)

**"Mae'n hawdd teimlo'n unig ac yn ynysig fel gofalwr ifanc."**

— (Bachgen, 16, De-orllewin Cymru)

**"Mae mam yn gorfodi fi i ofalu am fy chwaer sy'n fabi pan fydd hi'n gweithio gartre."**

— (Bachgen, 18, Gogledd Cymru)

**"Weithiau mae gwaith ysgol yn gallu bod yn straen achos mae gen i ddau riant sy'n dal i weithio. Mae rhaid i fi wneud fy ngwaith fy hun a helpu fy siblingiaid iau pan fyddan nhw'n styc."**

— (Merch, 16, Canolbarth Cymru)

**"Teimlo mod i'n gofalu am fy mrodyr a'm chwaer o hyd achos bod mam yn gweithio fyny'r grisiau ac mae'r ddau blentyn bach yn methu mynd i ofal plant yn eu lle arferol. Dydy e ddim yn deg, nid fi yw eu mam nhw."**

— (Merch, 16, Gogledd Cymru)

**“Achos mod i’n ddiogel gartre ond mae gen i 2 frawd sy’n awtistig ac mae mam yn gweithio gartre, felly mae rhaid i fi helpu i ofalu amdany’n nhw”**

— (Merch, 16, Gogledd Cymru)

**“Mae Dysgu Gartre’n anodd os oes gen ti rieni sy’n weithwyr hanfodol a/neu sydd ddim yn siarad Saesneg yn dda iawn. Mae angen i fi ofalu am fy chwaer fach drwy’r dydd ac esbonio’r taflenni gwaith mae ei hathrawon wedi anfon ati hi ac mae’n anodd gwneud hynny i gyd wrth i bawb ohonon ni rannu un ddyfais.”**

— (Merch, 17, Canol De Cymru)

**“[Rydw i’n poeni][Achos rydw i’n ofalwr ifanc yn gofalu am mam-gu sydd â chyflyrau iechyd gwaelodol”**

— (Bachgen, 15, Canol De Cymru)

**“Gorfod gofalu am fy mrawd 2 oed ar yr un pryd â cheisio addysgu fy hun achos bod gen i ddau riant sy’n weithwyr allweddol”**


— (Merch, 15, Canol De Cymru)

**“Rydw i’n colli mynd i’r Grŵp Gofalwyr Ifanc a gallu gweld fy holl ffrindiau, a’r gweithwyr hefyd. Rydw i’n teimlo bach yn unig achos mod i’n methu gweld fy ffrindiau a’r teulu agos, felly mae’n gallu bod yn anodd teimlo’n bositif ran o’r amser”**

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

**“Weithiau mae gwaith ysgol yn gallu bod yn straen achos mae gen i ddau riant sy’n dal i weithio. Mae rhaid i fi wneud fy ngwaith fy hun a helpu fy siblingiaid iau pan fyddan nhw’n styc.”**

# Sut mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar fywydau pobl ifanc?



Fe ofynnwn ni i bobl ifanc pa newidiadau oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut roedden nhw'n teimlo. Dywedodd 71% mai methu treulio amser gyda ffrindiau, gyda methu ymweld ag aelodau o'r teulu yn dilyn (53%) a'r ysgol neu'r coleg yn cau (50%) oedd yn cael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn ategu pwysigrwydd perthnasoedd i bobl ifanc a'u bod nhw eisiau ymgysylltu ag addysg. Gofynnwyd i 138 o bobl ifanc a ddewisodd 'arall' nodi pa newidiadau eraill oedd wedi cael yr effaith fwyaf. Ymhlith y newidiadau a ddisgrifiwyd roedd profi anawsterau gartre gyda'r teulu (16%), teimlo bod effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant (14%) a chau lleoedd yn eu cymuned, fel busnesau a gwasanaethau (13%).

Yn ein harolwg hygyrch, fe ofynnwn ni "oes yna unrhyw beth cadarnhaol am aros gartre oherwydd y Coronafeirws?". Fe wnaethon ni godio eu hatebion. O'r 29 a ymatebodd i'r cwestiwn yma, dywedodd 38% fod treulio amser gyda'r teulu yn gadarnhaol. Dywedodd 31% o bobl ifanc wrthyn ni fod yna "ddim pethau da" am aros gartre oherwydd y Coronafeirws.

## Hapus, iach, diogel

Mae wedi bod yn galonogol clywed bod 74% o'r bobl ifanc 15-18 oed yn teimlo'n ddiogel y rhan fwyaf o'r amser, a bod 41% yn adrodd eu bod yn teimlo'n hapus y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, dywedodd 45% eu bod nhw wedi bod yn pryderu ran o'r amser, ac roedd 46% yn teimlo'n drist ran o'r amser. Dywedodd 19% eu bod nhw wedi bod yn pryderu'r rhan fwyaf o'r amser, a dywedodd 21% eu bod nhw'n teimlo'n drist y rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd 14% eu bod nhw ddim wedi teimlo'n hapus yn aml iawn. Yn achos y rhai 15-18 oed a ymatebodd i'n Harolwg Hygyrch, dywedodd 59% eu bod nhw wedi bod yn pryderu, roedd 54% yn drist, 28% yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, a 15% yn dweud eu bod nhw'n hapus.

Fe ofynnwn ni i'r bobl ifanc oedden nhw'n gwybod ble gallen nhw gael help ar gyfer eu hiechyd meddwl ac emosiynol petai angen. Dywedodd y mwyafrif o'r bobl ifanc y bydden nhw'n cael help ar-lein neu ar y cyfryngau cymdeithasol (53%), gan athrawon neu staff eraill yn yr ysgol/y coleg/y brifysgol (51%) neu gan eu meddyg (51%). Dywedodd 62% o'r bobl ifanc a

ymatebodd i'n harolwg hygyrch eu bod nhw'n gwybod sut i gael help os oedd angen cefnogaeth aryn nhw i deimlo'n hapus ac yn iach.

Pan ofynnwn ni i bobl ifanc sut roedden nhw'n cadw corff a meddwl iach, y tri gweithgaredd oedd yn cael eu dewis amlaf oedd, defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad (74%), siarad â ffrindiau (70%) a gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored (cerdded, rhedeg, beicio etc.) (68%). Roedd llawer o bobl ifanc yn defnyddio'r amser i ddifyrru eu hunain, gyda llawer yn gwneud eu gwaith ysgol (53%), yn darllen ac yn ysgrifennu (37%), yn coginio prydau iach (36%) ac yn dysgu sgiliau newydd (24%).

O'r rhai a ymatebodd i'n harolwg hygyrch, dywedodd 26 o bobl ifanc wrthyn ni beth roedden nhw'n ei wneud i gadw'n iach. Ymarfer corff (73%), siarad â ffrindiau (68%) a gwneud gwaith ysgol (63%) oedd y tri phrif weithgaredd ddewiswyd gan y bobl ifanc hyn pan ofynnwn ni beth roedden nhw wedi bod yn ei wneud i gadw corff a meddwl iach.

**“Mae’n rhoi amser i fi gysgu a gorffwys o’r diwedd ar ôl colli cymaint yn ystod y flwyddyn ysgol oherwydd adolygu ac arholiadau ffug. Doeddwn i ddim wedi cysgu’n iawn am sbel cyn y cyfnod clo. Rydw i wedi gwneud peth celf, ymarfer corff, gymnasteg, rydw i wedi bod yn darllen, rydw i wedi bod yn glanhau, rydw i wedi bod yn edrych ar yrfaeodd...”**

— (Merch, 16, Gogledd Cymru)

**“Mae gen i fwy o amser ar gyfer hobiau a dysgu ieithoedd. Rydw i hefyd yn gallu meddwl yn gliriach am fy nyfodol (er gwaethaf ansicrwydd fy nghanlyniadau arholiad).”**

— (Bachgen, 17, Canol De Cymru)

**“Rydw i’n dysgu amrywiaeth o sgiliau newydd ac yn dysgu sut i werthfawrogi fy hun yn fwy er mwyn gweithio hyd eithaf fy ngallu. Rydw i hefyd yn teimlo’n agosach at deulu a ffrindiau.”**

— (Merch, 16, Gogledd Cymru)

**“Dysgu sut i helpu gyda thasgau o amgylch y tŷ.”**

— (Merch, 15, De-orllewin Cymru)

**“Rwy’n treulio mwy o amser yn ymarfer offerynnau ac rwy’n dysgu BSL.”**

— (Merch, 16, De-orllewin Cymru)

### **Bywyd ar-lein**

Dyweddod llawer o bobl ifanc wrthyn ni yn eu hymatebion i’r arolwg eu bod nhw’n gwneud yn fawr o’r cyfleoedd i adael cartref pan oedd modd, er enghraifft manteisio ar gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored a mynd i weithio mewn rolau hanfodol. Fodd bynnag, mae pobl ifanc, fel llawer o bobl eraill, wedi gorfod addasu i gyrchu elfennau pwysig o’u bywydau ar-lein, er enghraifft, gweld ffrindiau a theulu ac ar gyfer dysgu. Roedd 85% o bobl ifanc 15-18 oed yn ein harolwg yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau, ac roedd 77% yn defnyddio galwadau fideo. Ymatebodd 76% fod siarad â ffrindiau ar-lein yn ffordd iddyn nhw ymlacio, gydag ymarfer corff neu weithgaredd corfforol yn dilyn (59%).

Dyweddod llawer o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw’n colli eu ffrindiau ac yn edrych ymlaen at weld ei gilydd pan fyddai hynny’n ddiogel, ond eu bod yn manteisio cymaint â phosibl ar ffyrdd o siarad â’i gilydd o bell. Dywedodd llawer eu bod nhw’n siarad mwy ag aelodau o’r teulu. Bu rhai pobl ifanc yn rhannu gyda ni faint roedden nhw’n gweld eisiau euartneriaid o ganlyniad i fesurau “Aros Gartref” y Coronafeirws oherwydd eu bod nhw’n byw mewn aelwyd arall.

**“Rydw i’n treulio mwy o amser gyda’m teulu (yn fy aelwyd). Rydw i a’m ffrindiau yn gwerthfawrogi’r amser rydyn ni’n ei dreulio gyda’n gilydd dros alwadau fideo yn fwy. Mae gen i fwy o amser i wneud gweithgareddau bydden i ddim yn gwneud tasen i yn yr ysgol. Mae’r gymuned yn dod at ei gilydd (clapio i ofalwyr a dosbarthu bwyd i gymdogion). Rydw i’n ceisio siarad â Mam a Dad ar y ffôn, ond dyw e ddim yn hawdd. Rydyn ni’n defnyddio Skype weithiau, ond mae’n well gen i deipio, a fydda i ddim bob amser yn dangos fy wyneb.”**

— (Merch, 15, Gogledd Cymru)

**“[Does yna] Ddim byd positif mewn gwirionedd [am y sefyllfa] heblaw mod i’n falch bod gen i ffôn i gadw mewn cysylltiad â’m ffrindiau.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

**“Rydw i’n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy i gadw mewn cysylltiad ac rydw i’n gwerthfawrogi’r pethau bach mewn bywyd yn fwy.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)


**“Dydy’r feirws ddim yn poeni fi ond mae peidio â gweld fy ffrindiau yn ypsetio fi.”**

— (Merch, 15, Canol De Cymru)

**“Mae cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fwy nag erioed nawr.”**

— (Bachgen, 15, Canol De Cymru)

# Beth nesa i bobl ifanc o ran dysgu a gwaith?



**Mae cau busnesau a sefydliadau addysg dros dro, ynghyd â'r symud at ddysgu o bell neu ar-lein, wedi golygu bod llawer o bobl ifanc wedi profi cyfnod sylweddol o ansicrwydd ynghylch dysgu a'u dyfodol. Mae'r ansicrwydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymatebion a gawson ni gan bobl ifanc. I'r rhai yn y grŵp oed yma a ymatebodd i'n harolwg, roedd mwy o bobl ifanc yn brin o hyder yn eu dysgu nag oedd yn teimlo'n hyderus. Doedd 21% ddim yn teimlo'n hyderus o gwbl, doedd 26% ddim yn hyderus; roedd 21% yn hyderus, ac roedd 7% yn hyderus iawn.**

Rhannodd pobl ifanc bryderon ynghylch sut byddai'r Coronafeirws yn effeithio ar eu haddysg a'u rhagolygon i'r dyfodol, a chau manau cyhoeddus, fel ysgolion a busnesau. Esboniodd llawer yr heriau roedden nhw'n eu hwynebu wrth addasu i ffyrdd newydd o addysgu, roedden nhw'n ansicr am eu harholiadau, eu swyddi ac a fydden nhw'n gallu mynd i'r brifysgol.


Dangoswyd cyfres o frawddegau i'r bobl ifanc a gofyn iddyn nhw ddewis pa rai oedd yn wir iddyn nhw. Ymatebodd 4,344 ohonyn nhw. Y tri opsiwn a ddewiswyd amlaf oedd: Rydw i'n pryderu am sut gallai hyn effeithio ar fy nghanlyniadau mewn arholiadau (72%), rydw i'n drist mod i'n colli profiadau roeddwn i'n edrych ymlaen atyn nhw (61%) ac rydw i'n pryderu am gollu tir gyda'm dysgu (52%). At ei gilydd, dywedodd 51% wrthyn ni eu bod nhw ddim yn teimlo cymhelliad i wneud gwaith ysgol gartre. Dewiswyd hyn gan 51% o'r bobl ifanc a ddewisodd "ysgol" fel lleoliad addysg, a 56% o'r rhai a ddywedodd eu bod mewn coleg neu brifysgol.

Bydd yr adrannau canlynol yn archwilio'r gwahanol brofiadau roedd pobl ifanc yn eu hwynebu, yn dibynnu ar eu lleoliad addysg neu eu sefyllfa gyflogaeth.

# 51%

**Dywedodd 51% wrthyn ni eu bod nhw ddim yn teimlo cymhelliad i wneud gwaith ysgol adref.**

# Sut roedd pobl ifanc yn yr ysgol yn teimlo?



**Mae cau ysgolion i'r mwyafrif o'r disgyblion wedi cael effaith sylweddol ar lawer o bobl ifanc, sydd wedi gorfod addasu i ffyrdd newydd o ddysgu, gyda llawer o bobl ifanc yn wynebu ansicrwydd ynghylch a fydden nhw'n gallu sefyll eu harholiadau. Roedd llawer o bobl ifanc yn deall pam roedd ysgolion wedi cau dros dro, ond teimlai llawer ymdeimlad o rwystredigaeth a cholli rheolaeth gyda'u dysgu. Roedd rhai pobl ifanc yn mwynhau'r cyfle i ddysgu o'u cartref. Mae'r data canlynol yn cael ei lywio gan ymatebion y 3,715 o ymatebwyr i'r arolwg sydd fel arfer yn mynd i'r ysgol.**

Holwyd y bobl ifanc 15-18 oed am gyswllt gan yr ysgol. Y dulliau cyswllt mwyaf cyffredin i ysgolion oedd e-bost (76%), dros y ffôn (35%) ac ar wefan yr ysgol (32%). Dywedodd 3% o'r bobl ifanc fod eu hysgol heb gysylltu â nhw.

O'r 29 oedd yn yr ysgol a ymatebodd i'n harolwg hygyrch, y dulliau cyswllt mwyaf cyffredin gan yr ysgol oedd y ffôn (54%), gydag e-bost (46%) a gwefan yr ysgol (46%) yn dilyn. Dywedodd 8% o'r bobl ifanc hyn fod eu hysgol heb gysylltu â nhw.

Datgelodd ymatebion y bobl ifanc i'n harolwg brofiadau cymysg o ran sut roedd pobl ifanc yn derbyn eu haddysg yn ystod y cyfnod yma. Er bod 6% wedi'n hysbysu nad oedd ganddyn nhw unrhyw bryderon am eu haddysg, hysbysodd 24% ni eu bod nhw ddim yn deall y gwaith oedd wedi cael ei anfon atyn nhw. Roedd 35% yn pryderu am gychwyn blwyddyn newydd neu leoliad addysg newydd ym mis Medi. Pan ofynnwn ni i'r bobl ifanc oedd yna unrhyw beth roedd angen help arnyn nhw gyda fe, ymatebodd 24% y bydden nhw'n hoffi cael mwy o gefnogaeth i fynd ar-lein i wneud gwaith ysgol. Rhoddodd pobl ifanc awgrymiadau ynghylch sut gallen nhw gael eu cefnogi'n well gyda gwaith ysgol, a rhannu eu profiadau o ddysgu gartre.

Mae'r ddau ddyfyniad cyntaf yn enghreifftiau o sut roedd rhai pobl ifanc yn gwerthfawrogi amser allan o'r ysgol:

**“Mae cryn dipyn yn llai o straen arna i na tasen i yn yr ysgol, ac rydw i'n teimlo bod fy llesiant cyffredinol wedi gwella'n sylweddol. Rydw i'n teimlo bod mwy o gysylltiad â'm teulu, ac rydw i hefyd yn teimlo mod i bellach â gwell rheolaeth ar fy nysgu.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

**“Roedd yr ysgol yn arfer achosi llawer o straen a phryder i fi, ond ers bod nhw ar gau rydw i wedi bod yn llawer hapusach ac wedi ymlacio mwy nawr bod dim straen ysgol gen i, ac mae fy iechyd meddwl wedi gwella llawer nawr mod i ddim o dan gymaint o bwysau, ac mae'n wych cael rhagor o amser rhydd.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

Roedd eraill yn cael trafferth ymdopi gyda dysgu gartre:

**“O bosib mwy o gyswllt â’r ysgol er mwyn cynnal yr ymdeimlad o gymuned yr ysgol cyn i hynny (yn ddealladwy) ddod i ben yn sydyn.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

**“Gallu siarad â’r hathrawon yn hytrach na thrwy e-byst a sylwadau ar ‘google classroom’.”**

— (Merch, 15, Gogledd Cymru Wales)

**“Mwy o gefnogaeth dechnegol achos bod dosbarthiadau ar-lein yn galed heb gyfrifiaduron neu’r dechnoleg ddiweddar.”**

— (Bachgen, 15, De-ddwyrain Cymru)

**“Alla i ddim gwneud fy ngwaith achos bod fy ngliniadur wedi torri ac alla i ddim fforddio un arall.”**

— (Bachgen, 17, De-orllewin Cymru)

**“Gormod o waith i’w wneud a dim digon o help. Dydw i ddim yn cael yr help fyddwn i fel arfer, ac mae’n anodd esbonio dros e-bost.”**

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

**“Tase dim rhaid i mam weithio tra mod i gartre, galle hi helpu fi mwy gyda fy ngwaith. Weithiau rydw i’n gweld eisiau gallu gofyn yn bersonol i’r athro.”**

— (Merch, 15, Canol De Cymru)

Roedd rhai pobl ifanc yn awyddus i ddychwelyd i’r ysgol cyn gynted â phosib:

**“Oherwydd mod i ddim yn teimlo mod i’n dysgu cystal gartre, rydw i eisiau mynd i’r ysgol a chael help gan yr athrawon. Rydw i’n teimlo bod fy addysg yn cael ei thafllu i ffwrdd ar hyn o bryd.”**

— (Merch, 15, Canolbarth Cymru)

**“Dychwelyd i’r ysgol cyn gynted â phosibl, neu ailadrodd y flwyddyn ysgol.”**

— (Merch, 17, Canol De Cymru)

Er bod llawer o sylwadau, fel y dangosir uchod, yn awgrymu awydd i gael mwy o gefnogaeth uniongyrchol gan athrawon, mae’r dyfyniad canlynol yn dangos y gall amgylchiadau’r cartre olygu bod addysgu neu gefnogi ‘yn fyw’ ar-lein yn her i rai:

**“Weithiau alla i ddim clywed beth mae’r athro a’r CCD yn dweud, ac mae peth sŷn yn y cefndir, ac alla i ddim gweithio yn rhywle tawel, ac rydw i’n colli amynedd ac yn teimlo straen a rhwystredigaeth.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)



# Sut roedd pobl ifanc yn yr ysgol yn teimlo am ganslo arholiadau?



**Cafodd yr arolwg yma ei gynnal rai misoedd cyn y canlyniadau arholiad dadleuol a ryddhawyd ym mis Awst, ond roedd llawer o bobl ifanc eisoes yn ansicr neu'n bryderus am y canlyniadau ar ôl i'r arholiadau gael eu canslo.**

O'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg oedd yn yr ysgol, dywedodd 92% eu bod yn disgwyl sefyll arholiadau yr haf yma. Gofynnwyd i'r bobl ifanc yma sut roedden nhw'n teimlo am y ffaith bod yr arholiadau wedi'u canslo. Dywedodd 51% eu bod nhw'n teimlo'n ansicr, roedd 17% yn teimlo'n bryderus ac roedd 16% yn hapus. Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod llai o bwysau arnyn nhw i adolygu a sefyll arholiadau, ond roedd llawer hefyd yn teimlo eu bod wedi colli rheolaeth ar eu graddau terfynol ac yn cael trafferth cynnal cymhelliad pan oedd cymaint o ansicrwydd ynghylch eu harholiadau.

Ymatebodd 2,688 o bobl ifanc oedd yn yr ysgol i gwestiwn am sut roedden nhw'n teimlo am eu harholiadau'n cael eu canslo. Fe wnaethon ni godio eu hymatebion testun rhydd. Roedd 16% eisiau sefyll eu harholiadau i brofi eu hunain a gwella'u marciau. Roedd 16% yn pryderu am sut byddai eu graddau a'u canlyniadau'n cael eu penderfynu. Roedd 13% yn teimlo rhyddhad oherwydd eu bod nhw ddim eisiau sefyll arholiadau. Roedd 13% yn pryderu na fydden nhw'n cyflawni eu potensial. Roedd 11% yn teimlo bod eu gwaith caled wedi cael ei wastraffu. Roedd 10% yn teimlo bod dryswch a diffyg eglurder gan ysgolion. Roedd 8% yn pryderu am yr effaith ar eu swyddi a'u prifysgol yn y dyfodol.

Esboniodd sawl person ifanc a ymatebodd i'r arolwg hwn fod y cyfnod yma wedi bod yn un ansicr iddyn nhw. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod nhw eisiau eglurder ynghylch effaith canslo arholiadau ar eu dyfodol, gwybodaeth glir ynghylch sut bydd hynny'n effeithio arnyn nhw, ac roedden nhw eisiau gwybod mwy am sut bydd penderfyniadau ynghylch eu graddau a'u canlyniadau'n cael eu gwneud.

**“Mae canslo'r arholiadau yn golygu bod dim straen i fi, ond flwyddyn nesa bydd rhaid i fi ganolbwyntio mwy ar fy ngwaith i gael y graddau rydw i eisiau.”**

— (Bachgen, 15, De-orllewin Cymru)

**“Gan mod i mewn sefyllfa weddol ddiogel rydw i wedi ymlacio tipyn am fy nghanlyniadau, ac rydw i'n mwynhau peidio â bod o dan bwysau.”**

— (Bachgen, 18, Canol De Cymru)

**“Mae'r straen oddi ar fy sgwyddau, ond rydw i'n dal i boeni am y coleg neu a fydda i'n anghofio popeth ddysgais i yn yr ysgol yn ystod y pandemig ac yn methu pasio yn y coleg oherwydd hynny: does gen i ddim cymhelliad i adolygu.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)



**“Wel, rydw i’n teimlo, ers i’r coronafeirws ddod, fod hynny wedi rhwystro fy nghyfle i gael y graddau rydw i eisiau o’r arholiadau roeddwn i i fod i’w gwneud ym Mehefin a Mai. Rydyn ni wedi bod yn paratoi am yr holl flynyddoedd yn yr ysgol uwchradd i wneud y prawf terfynol, sef yr arholiadau ar y diwedd, ond nawr bod y coronafeirws wedi dod mae’r holl arholiadau wedi cael eu canslo ac rydyn ni’n cael graddau ar sail ein gwaith yn y dosbarth a’r graddau gawson ni mewn prawf yn y dosbarth, lle dyw’r rhan fwyaf o bobl ddim hyd yn oed yn gwneud ymdrech i astudio. Mae’n annheg achos bod blynyddoedd eraill wedi cael cyfle i wneud eu harholiadau ar ôl paratoi amdany’n nhw ers blynyddoedd, a bod ein blwyddyn ni heb gael cyfle i ddangos ein potensial go iawn, rydych chi’n teimlo’ch bod chi’n cael eich bradychu achos bod dim rhaid mynd trwy rywbeth fydd yn penderfynu pa gyfleoedd gewch chi yn y dyfodol.”**

— (Bachgen, 15, De-ddwyrain Cymru)

**“Ddim yn gwybod beth fydd fy ngraddau, a does dim byd galla i wneud i newid beth mae fy athro’n meddwl, hyd yn oed os ydw i’n anghytuno â nhw.”**

— (Bachgen, 17, Anghysbys)

**“Mae dysgu ar-lein yn galw am dechnoleg mae fy nheulu’n syml yn methu ei fforddio, ac sydd fel arfer yn cael ei darparu i fi gan yr ysgol. Ar ben hynny, mae diffyg gwybodaeth am sut bydd ein graddau’n cael eu dyfarnu, maen nhw’n gwybod bod plant yn gweithio’n galetach yn ystod gwyliau’r pasg nag yn yr arholiadau ffug a bod y graddau’n codi un neu hyd yn oed ddwy radd.”**

— (Bachgen, 16, Canol De Cymru)

**“Fe dreuliais i’r rhan fwyaf o flwyddyn 10/11 yn helpu fy sibling anabl i bontio i’r ysgol uwchradd... rydw i wedi bod yn gwneud yn wych yn y dwsinau o hen bapurau rwy wedi gwneud gartre ers mis Ionawr. Tasen i wedi gwneud yr arholiadau byddwn i wedi gwneud yn WYCH, rwy’n gwybod byddwn i. Ond gyda’r rheolau newydd bydda i’n cael gradd sydd ddim cystal, a fydda i ddim hyd yn oed yn gallu apelio. Pam dylwn i gael fy nghosbi achos mod i wedi helpu a chefnogi fy sibling anabl.”**

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

#### **Effaith y Coronafeirws ar bontio i bobl ifanc yn yr ysgol**

Cafodd yr ysgolion eu cau oherwydd y Coronafeirws ar adeg pan oedd llawer o bobl ifanc yn meddwl am beth byddan nhw eisiau ei wneud yn y dyfodol, er enghraifft mynd i’r chweched dosbarth neu i goleg, cychwyn ar swydd neu interniaeth, neu fynd i’r brifysgol. Bydd llawer wedi bod yn ystyried pa opsiynau sydd ganddyn nhw a pha bynciau bydden nhw’n hoffi eu hastudio. Mae hwn yn gyfnod pontio pwysig i lawer o bobl ifanc. O ran y bobl ifanc ym Mlwyddyn 11, dywedodd 91% o’r ymatebwyr eu bod wedi penderfynu beth a ble roedden nhw eisiau astudio ym mis Medi 2020.

Fodd bynnag, dywedodd 106 o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw heb benderfynu beth i’w wneud nesa o ran eu haddysg. Roedd 39% eisiau mwy o gyngor i ddeall eu hopsiynau, byddai 25% yn hoffi cefnogaeth i wneud cais i’r chweched dosbarth, a byddai 15% yn hoffi cefnogaeth i wneud cais am interniaeth. Mae hyn wedi dangos pwysigrwydd bod angen darparu cefnogaeth a chyngor parhaus i bobl ifanc yn y grŵp oedran yma sy’n gallu gadael addysg amser llawn, gan y gallai rhai gollu cysylltiad heb ddeall yn llawn yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw. Mae’n eglur bod rhai am barhau ag addysg a hyfforddiant, ond eu bod nhw’n ansicr sut i wneud hynny.

Yn achos y bobl ifanc a ymatebodd i’n harolwg ac a oedd yn astudio ar gyfer Lefel A, roedd 44% (379) ym Mlwyddyn 13 neu yn ail flwyddyn eu lefel A. Roedd 92% o’r bobl ifanc hyn wedi penderfynu eu bod am barhau mewn addysg neu hyfforddiant ym mis Medi 2020.

Mynegodd pobl ifanc oedd ym mlwyddyn gyntaf lefel A ac yn astudio ar gyfer cymwysterau lefel AS ar adeg cwblhau’r arolwg bryderon am orfod gwasgu dwy flynedd o waith i mewn i un flwyddyn academaidd yn yr ysgol wrth ddychwelyd.

**“O’r diwedd fe wnes i sylweddoli bod yr ysgol yn fwy na lle i ddysgu, ac yn rhywle i fi gymdeithasu a chreu perthynas agosach gyda fy ffrindiau. Rwy’n dymuno gallwn i weld fy ffrindiau i gyd gyda’i gilydd cyn iddyn nhw i gyd symud i wahanol ysgolion.”**

— (Merch, 15, Anhysbys)


**“Rydw i’n teimlo y dylai fod mwy o esboniad a sicrwydd ynghylch beth sy’n mynd i ddigwydd gyda graddau a’n dyfodol, yn arbennig yn achos disgyblion blwyddyn 12 y mae disgwyl iddyn nhw wneud cais prifysgol cyn diwedd y flwyddyn.”**

— (Merch, 16, De-orllewin Cymru)

**“I bobl ifanc nawr, yn enwedig y rhai oedd yn mynd i sefyll arholiadau mewn rhan hanfodol o’u haddysg, oedd yn debygol o fod yn cymryd cam newydd yn eu haddysg, maen nhw’n wynebu ansicrwydd o ran beth fydd yn digwydd nesa iddyn nhw a dyw’r llywodraeth ddim yn rhoi digon o wybodaeth ynghylch beth fydd y cam nesa i’r bobl yna a sut bydd eu canlyniadau lefel A a TGAU yn gweithio.”**

— (Merch, 17, Canolbarth Cymru)

# Sut oedd Pobl Ifanc mewn Prifysgol a Choleg yn teimlo am eu dysgu?



**Dywedodd 472 o'r bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg wrthyn ni eu bod nhw yn y brifysgol a'r coleg. O'r rhain, roedd 2% yn 15 oed, 15% yn 16, 49% yn 17 a 34% yn 18.**

**Gofynnnon ni i'r bobl ifanc pa mor hyderus roedden nhw'n teimlo am eu dysgu ar yr adeg yma. Ymatebodd 362 o bobl ifanc oedd yn y coleg neu'r brifysgol i'r cwestiwn yma. Dywedodd 10% eu bod nhw'n teimlo'n "hyderus iawn", roedd 19% yn teimlo'n hyderus, ond doedd 27% ddim yn teimlo'n hyderus iawn, a doedd 25% ddim yn hyderus o gwbl.**

Fe wnaethon ni godio'r ymatebion testun rhydd gan 204 o bobl ifanc yn y coleg neu'r brifysgol, a ddywedodd wrthyn ni pa newidiadau oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgu o bell. Dywedodd 79% o'r rhain methu cwrdd â ffrindiau, dywedodd 54% methu mynd allan cymaint, a dywedodd 40% methu gweld tiwtor neu ymuno â dosbarth.

O'r grŵp yma, ymatebodd 467 o bobl ifanc i'r cwestiwn, "oeddet ti'n disgwyl sefyll arholiadau yn yr haf?". O'r rheiny, roedd 69% yn disgwyl sefyll arholiadau yn yr haf. Rhoddodd 323 o bobl ifanc fwy o fanylion i ni ynghylch sut roedden nhw'n teimlo am y ffaith bod yr arholiadau wedi'u canslo. Roedd 47% yn ansicr am y ffaith eu bod nhw wedi'u canslo, ac roedd 21% yn pryderu. Roedd 13% o bobl ifanc yn hapus bod yr arholiadau wedi'u canslo. Fe wnaethon ni godio ymatebion gan 254 o bobl ifanc oedd yn y coleg neu'r brifysgol ynghylch pam roedden nhw'n teimlo fel roedden nhw am yr arholiadau'n cael eu canslo. O'r rhain, dywedodd 19% eu bod nhw eisiau sefyll yr arholiadau i brofi eu hunain a gwella'u marciau, roedd 18% yn pryderu na fyddai'r graddau oedd yn cael eu rhagweld ar eu cyfer yn adlewyrchu eu potensial. Roedd 17% yn pryderu am yr effaith ar swyddi a phrifysgol yn y dyfodol. Dywedodd 8% eu bod nhw'n teimlo rhyddhad, achos eu bod nhw ddim eisiau sefyll arholiadau, ac roedd 5% yn pryderu am eu gwaith cwrs.

**"Oherwydd dyw canlyniadau arholiadau ffug a gwaith coleg hyd at 20 Mawrth DDIM yn adlewyrchu fy ngallu i wneud yn dda mewn arholiad. Does dim gwybodaeth wedi bod yn ddigon clir i fyfyrwyr sy'n gwneud eu TGAU yn y coleg, ac mae'n annheg ein bod ni'n cael ein cadw yn y tywyllwch yn ystod hyn i gyd."**

— (Merch, 18, De-orllewin Cymru)

**"Roeddwn i'n barod am arholiadau ac felly roeddwn i'n rhoi blaenoriaeth i adolygu yn hytrach na'r aseiniadau gwaith cartre. Nawr mae ein gwaith cartre'n cael ei asesu yn hytrach na'r nodiadau adolygu neu arholiadau."**

— (Merch, 18, Gogledd Cymru)

**“Rydw i’n teimlo’n ansicr achos doedd y graddau gafodd eu rhagweld i fi ddim mor uchel ag oeddwn i’n gweithio i’w cyflawni nes mlaen mewn arholiad (mwy o adolygu a dysgu rhwng arholiadau ffug).”**

— (Bachgen, 17, Canol De Cymru)

Dyweddodd 85% o’r bobl ifanc fod eu lleoliad wedi cysylltu â nhw trwy e-bost, 32% dros y ffôn, 31% trwy wefan y lleoliad. Dywedodd 3% eu bod heb fod mewn cysylltiad â’u lleoliad.

Dyweddodd rhai pobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw’n addasu’n dda i ddysgu gartre ac yn gallu arbrofi gyda ffyrdd o ddysgu oedd yn addas iddyn nhw, gan fwynhau treulio llai o amser yn teithio i’r coleg.

**“Rwyf ti’n gallu dysgu ar dy gyflymder dy hun ac edrych ar y pethau sydd o ddiddordeb i ti yn lle cael dy orfodi i ddysgu pethau dibwys yn rhy gyflym.”**

— (Merch, 17, De-orllewin Cymru)

**“Rydw i’n teimlo’n llawer mwy cyfforddus ac wedi ymlacio yn dysgu gartre yn lle gorfod cymudo bob dydd.”**

— (Merch, 16, De-orllewin Cymru)

Roedd llawer yn dal i bryderu am eu harholiadau a’r effaith ar eu dyfodol:

**“Mae wedi bod yn galed, yn enwedig gyda gwaith coleg achos mod i’n teimlo bod lot yn cael ei osod, ond maen nhw’n dweud wrthyn ni bod e ddim yn cael ei raddio. O beth mae gweddill y dosbarth wedi dweud, rydw i’n teimlo bod llawer o bryder ac ansicrwydd ynghylch gwaith ysgol, a gallai’r holl sefyllfa fod wedi cael ei hesbonio’n llawer gwell wrthyn ni.”**

— (Merch, 17, De-orllewin Cymru)

**“Fe es i drwy batshyn anodd am resymau personol tua adeg fy arholiadau ffug, felly byddwn i’n hoffi gwybod bydd y byrddau arholi’n cymryd rhywbeth fel yna i ystyriaeth wrth ragfynegi graddau. Byddwn i hefyd yn hoffi i’r llywodraeth roi mwy o bwysau ar brifysgolion i ddweud wrthyn ni beth fydd yn digwydd gydag addysg flwyddyn nesa.”**

— (Merch, 17, Canolbarth Cymru)

**“Rydw i’n colli oriau Lleoliad prifysgol a heb gael unrhyw eglurder o ran sut bydd y cwrs yn cael ei gwblhau heb oedi am 6 mis a dyw’r brifysgol ddim wedi rhoi unrhyw sicrwydd.”**


— (Merch, 18, De-ddwyrain Cymru)

Esboniodd rhai pobl ifanc yr effaith ar elfennau ymarferol eu cyrsiau:

**“Ansicrwydd am fy nyfodol, rydw i’r un mor ansicr ag oeddwn i wythnos ddwetha. Bydd rhaid i fi adael y brifysgol os bydd fy nghwrs yn aros ar-lein achos rydw i’n astudio cerddoriaeth ac mae angen gwersi personol, cydweithio a mynediad at ystafelloedd arbenigol arna i (Stiwdios Cerdd etc). Dydw i ddim yn siŵr beth wna i flwyddyn nesa os bydda i’n gadael y brifysgol neu’n gohirio.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)

# Sut roedd pobl ifanc oedd yn derbyn addysg gartre yn teimlo?



Ymatebodd 29 person ifanc 15-18 oed oedd yn cael eu haddysg gartre i'n harolwg. Dywedodd chwech ohonyn nhw (21%) wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi mwy o help i fynd ar-lein i wneud eu gwaith. Soniodd pobl ifanc wrthyn ni am farn gymysg ynghylch y sefyllfa o ran eu dysgu ac effaith y Coronafeirws ar eu bywydau. Roedd rhai yn pryderu gallai'r Coronafeirws effeithio ar ganlyniadau arholiadau, ac yn pryderu am golli tir. Roedd eraill yn drist eu bod nhw'n colli profiadau. Doedd rhai ddim yn pryderu am eu haddysg, ac roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc wedi penderfynu beth a ble roedden nhw eisiau astudio ym mis Medi 2020.

Dywedodd pobl ifanc oedd yn cael addysg gartref wrthyn ni hefyd bod colli gweld eu ffrindiau a'r diffyg manau awyr agored gallen nhw fynd iddyn nhw yn cael effaith arnyn nhw.

**“Rydw i jyst eisiau dweud bod pawb yn meddwl mai dyma sut mae addysgu gartre trwy'r amser... ond dyw e ddim. Roedd gennyn ni fywydau cymdeithasol anferth.”**

— (Merch, 16, De-orllewin Cymru)

# Sut roedd pobl ifanc oedd yn brentisiaid ac yn hyfforddeion yn teimlo?



Dyweddodd 97 o bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg wrthyn ni eu bod nhw'n brentis neu'n hyfforddai. Bu 66 o'r bobl ifanc hynny yn rhannu gwybodaeth gyda ni ynghylch pa mor hyderus oedden nhw yn eu dysgu. Dywedodd 24 o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n hyderus yn eu dysgu (36%), gyda 10 yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n hyderus iawn (15%).

O'r 91 o bobl ifanc a ymatebodd i'n cwestiwn, "pa rai o'r brawddegau canlynol sy'n wir i chi?", dewisodd un o bob tri "Does gen i ddim cymhelliad i wneud gwaith ysgol gartre". Dim ond 8 person ifanc (9%) yn y grŵp yma oedd yn disgwyl sefyll arholiadau yn yr haf.

Roedd 83 o bobl ifanc (90%) wedi cael hyfforddiant, adnoddau neu gefnogaeth ar-lein i'w helpu i ddal ati i ddysgu yn ystod y mis diwethaf.

**"Mae peidio â bod yn y gwaith wedi effeithio ar sut rwy'n treulio fy niwrnodau, mae bod heb rwtin yn diflasu fi."**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

**"Rydw i jyst eisiau i bethau fynd nôl i normal, rydw i'n hoffi rwtin, ond mae'n teimlo fel bod ni'n aros ar y cyrion heb wybod beth fydd y cam nesa."**

— (Bachgen, 18, De-orllewin Cymru)

# 90%

**Roedd 90% o bobl ifanc, wedi cael hyfforddiant, adnoddau neu gefnogaeth ar-lein i'w helpu i ddal ati i ddysgu yn ystod y mis diwethaf.**

# Sut roedd pobl ifanc oedd ddim mewn addysg yn teimlo?



Ymatebodd 46 o bobl ifanc a ddywedodd eu bod nhw ddim mewn addysg i'n harolwg. O'r rhain, roedd 7% yn 16 oed, 35% yn 17 a 59% yn 18.

Rhannodd 45 o'r bobl ifanc hyn gyda ni sut roedden nhw'n teimlo am y Coronafeirws. Dywedodd 27% eu bod nhw ddim yn pryderu, dywedodd 29% eu bod nhw'n pryderu mwy na'r wythnos ddiwethaf, a dywedodd 9% eu bod nhw'n pryderu llai na'r wythnos ddiwethaf. Dywedodd y bobl ifanc hyn wrthyn ni beth oedd yn cael fwyaf o effaith ar eu teimladau am y Coronafeirws. Dywedodd 76% methu treulio amser gyda ffrindiau, dywedodd 67% methu ymweld ag aelodau o'r teulu, a dywedodd 44% methu cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r hobiau arferol.

Fe ofynnwn ni i'r bobl ifanc pa help ychwanegol roedden nhw'n meddwl bod arnyn nhw ei angen yn ystod y cyfnod yma. Yn achos y rhai fyddai'n hoffi rhagor o help, y 3 eitem a ddewiswyd amlaf oedd rhagor o wybodaeth am bethau i'w gwneud wrth aros gartre (35%), cefnogaeth i'ch helpu i deimlo'n hapus ac yn iach (35%) a chefnogaeth i wneud yn siŵr eich bod chi'n teimlo'n ddiogel gartre (24%).

Yn y grŵp yma, ymarfer corff yn yr awyr agored (67%), defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau (67%), a siarad â'r teulu (62%) oedd y tri phrif weithgaredd y dywedodd pobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n eu gwneud i gadw corff a meddwl iach.

Dywedodd yr holl bobl ifanc yn y garfan hon eu bod nhw ddim mewn addysg, ond ymatebodd 35 o bobl ifanc i'r cwestiwn "Os wyt ti'n meddwl am aros mewn addysg, beth fyddai'n dy gefnogi i benderfynu"? Fe ddwedon nhw wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi mwy o gyngor i ddeall yr opsiynau (12), gyda rhai pobl ifanc eisiau cefnogaeth i wneud cais i'r coleg (8) neu am brentisiaeth (5). Dywedodd rhai wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi cefnogaeth i ddysgu tu allan i ysgol, ac roedd rhai yn pryderu am eu swydd. Isod ceir rhai o'r ymatebion a rannodd pobl ifanc oedd ddim mewn addysg gyda ni:

**"Rydw i'n pryderu am beth fydd yn digwydd i blant EOTAS fel fi, rydw i'n pryderu fydda i'n gallu cael mynediad at addysg ar ôl hyn. O ran y cwestiwn isod, ydw, rydw i ym mlwyddyn 11, ond dydw i DDIM wedi cael dewis nac opsiwn o ran ble i astudio flwyddyn nesa. Maen nhw wedi dweud wrtha i bydda i'n colli pob darpariaeth flwyddyn nesa."**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

**"Dydw i ddim yn mynd i'r gwaith bellach, sy'n golygu bod dim incwm gen i."**

— (Merch, 17, De-ddwyrain Cymru)

**"Diffyg arian oedd yn golygu mod i'n ddigartref, heb gymorth gan y llywodraeth."**

— (Bachgen, 17, De-orllewin Cymru)



Dyweddodd rhai pobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw wedi profi rhwystrau wrth gael mynediad at gefnogaeth oherwydd bod eu gweithle'n cau. Mae hyn wedi ategu pryderon ynghylch yr effaith economaidd niweidiol bosibl ar bobl ifanc a allai fod mewn gwaith rhan amser neu waith achlysurol.

**“Rydw i’n methu mynd i’r gwaith ar hyn o bryd. Rydw i’n gweithio’n rhan amser mewn siop ac rydw i wedi gorfod cymryd 12 wythnos o wyliau heb dâl.”**


— (Merch, 17, De-orllewin Cymru)

**“Dydw i ddim yn cael fy nhalu achos does gen i ddim contract gyda fy swydd ran amser. Rydw i’n pryderu llawer am arian, ac alla i ddim gyrru fy nghar bellach, achos roedd yn ddrud i yswirio. Mae’r brentisiaeth roeddwn i i fod i’w chychwyn ym mis Medi wedi cael ei thynnu’n ôl, felly mae llawer o ansicrwydd ynghylch fy nyfodol, a dyna sy’n cael yr effaith fwyaf ar sut rydw i’n teimlo.”**

— (Merch, 18, Canol De Cymru)



# Tu ôl i'r data: sut mae hyn wedi effeithio ar hawliau pobl ifanc?



Fe ofynnwn ni gwestiynau cyffredinol i bobl ifanc am eu profiadau o argyfwng y Coronafeirws a sut roedd hynny wedi effeithio arnyn nhw. Defnyddiodd rhai pobl ifanc hynny'n gyfle i godi pryderon unigol am eu hamgylchiadau, sy'n adlewyrchu pa mor wahanol yw profiadau rhai pobl ifanc o'r misoedd diwethaf.

Er bod llawer o bobl ifanc wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n ymwybodol o'u hiechyd meddwl, dywedodd rhai pobl ifanc wrthyn ni am y newidiadau roedden nhw wedi'u profi yn eu cefnogaeth iechyd meddwl a'r heriau oedd wedi deillio o hynny. Yn eu hymatebion testun rhydd, dywedodd llawer o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n teimlo bod mesurau diogelwch y Coronafeirws wedi cael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl. O'r ymatebion y buon ni'n eu codio, dywedodd 73 o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n pryderu am fynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

**“Rydw i'n dibynnu ar wasanaethau iechyd meddwl ac wedi gwneud ers 4 blynedd. Mae'r rhan fwyaf o nghefnogaeth wedi cael ei rwygo i ffwrdd. Ydw, rwy'n cael galwadau fideo ond dydyn nhw ddim yr un peth.”**

— (Merch, 16, Canol De Cymru)

**“Ar hyn o bryd rydw i mewn ward pobl ifanc, yn cael triniaeth ar gyfer fy iechyd meddwl, ac ers y coronafeirws mae fy iechyd meddwl wedi dirywio mwy fyth achos mod i ddim yn gallu cael ymwelwyr, sydd wedi atal fy nhriniaeth rhag mynd ymlaen.”**

— (Merch, 16)

**“Rydw i'n brwydro yn erbyn anhwylder bwyta a dydw i ddim yn teimlo gallwn i ddweud wrth neb bellach. Cyn y cyfyngiadau symud fe ddwedais i wrth fy Meddyg Teulu, ond nawr achos corona cafodd yr apwyntiad GP ei ganslo, felly rydw i'n styc gyda hyn ar fy mhen fy hun.”**

— (Merch, 15)

**“Dydy Camhs ddim wedi helpu. Maen nhw'n ffonio i ofyn oes angen cefnogaeth, ond ddim yn rhoi unrhyw help heblaw cynyddu meddyginiaeth. Ond mae hynny wedi bod yn digwydd ers 2 flynedd, felly pam dylen i ddisgwyl iddyn nhw fod o unrhyw iws!”**

— (Bachgen, 16, Canol De Cymru)

**“Rydw i'n meddwl bod angen cyflwyno adroddiadau mwy manwl a rheolau clir ar gyfer symud ymlaen. Rydw i'n teimlo, fel person ifanc ein bod ni'n pryderu, a bod rhai ohonon ni'n isel oherwydd**

ein bod ni'n methu gweld ffrindiau. Mae'n cael llawer o effaith ar bobl sy'n dioddef o iselder neu orbryder, neu hyd yn oed bobl sydd ddim. Mae gwneud yr anhysbys yn anodd i unrhyw un."

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

Dyweddod rhai pobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw heb weld eu teulu am gyfnodau estynedig o amser oherwydd ble roedden nhw'n byw:

"Aeth y cyfleuster [preswyl] i mewn i gyfnod clo yn fuan wedi i mi gael fy rhyddhau o'r ysbyty ar ôl salwch difrifol. Roedd Mam a Dad wedi bod gyda fi yn yr ysbyty, ac yn sydyn gofynnwyd iddyn nhw adael fi. Dydw i ddim wedi'u gweld nhw nawr am 11 wythnos. Mae fy iechyd meddwl wedi diodde. Dydw i ddim yn gwybod beth yw fy hawliau mewn perthynas â gweld fy rheulu. Rydw i'n colli nhw cymaint."

— (Bachgen, 17, Canol De Cymru)

"Rydw i'n poeni mwy na'r wythnos ddwetha achos mod i'n pryderu am fy rhieni. Mae COPD, Pwysedd Gwael Uchel ac Arthritis ar nhad; mae gan mam salwch meddwl, ac felly mae methu mynd allan ac ymweld â nhw yn achosi mwy o bryder i fi wrth i amser fynd heibio dan y cyfyngiadau symud. Rydw i hefyd yn poeni am ddiwedd y cyfyngiadau symud, achos byddwn i'n ofni mynd i weld pobl ar ôl peidio â mynd allan am gyfnod hir. Yr unig bryd rydw i'n mynd allan yw unwaith yr wythnos neu falle ddwywaith yr wythnos achos mod i'n poeni llawer am ddal e a'i basio mlaen i'r bobl yn yr hostel."

— (Merch, 18, De-ddwyrain Cymru)

"Rydw i mewn gofal maeth, felly alla i ddim ymweld â'm mam fy hun. Roeddwn i hefyd wedi cael fy atgyfeirio i camhs a chwnsela, ond mae bach o lanast

gyda hynny. Maen nhw i fod i wneud galwadau, ond maen nhw fel arfer yn anghofio ac yn rhy brysur, felly beth yw'r pwynt? Ta beth, dyw galwad ffôn ddim wir yn helpu. Rydw i'n teimlo byddai angen i fi siarad â rhywun wyneb yn wyneb."

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

"1 mis cyn y cyfyngiadau symud fe es i ofal maeth, a nawr galla i ddim gweld fy rheulu o gwbl."

— (Merch, 15, Gogledd Cymru)

Rhannodd rhai pobl ifanc eu bod nhw'n colli rhwydweithiau cefnogi a ffrindiau, a'u bod nhw'n cael yr amser estynedig gartre yn anodd.

"Rydw i'n teimlo braidd fel mod i'n mogi gyda'r teulu. Dwi'n gwybod bydd dim ots gennych chi am hyn, ond rydw i'n aelod cuddiedig o'r gymuned LGBTQ a dydy fy rhieni ddim wir yn cytuno gyda hynny, ac mae fy ffrindiau fel arfer yno i gefnogi fi, ond maen nhw'n methu bod yma bellach... Hefyd mae fy iechyd meddwl wedi dirywio achos dwi ddim yn siŵr pwy dylen i siarad â nhw. Dydy fy rhieni ddim yn fy nghredu, ond dwi jyst mor drist..."

— (Merch, 15, Gogledd Cymru)

"Mae wedi bod yn straen. Rydw i'n treulio 2 wythnos gydag un rhiant, ac 1 wythnos gyda'r llall. Mae wedi achosi tensiwn a dadleuon rhwng fy rhieni. Nid dyma'r sefyllfa orau, ond rwy'n deall y gallai fod yn waeth."

— (Merch, 16, De-ddwyrain Cymru)

"Rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn dadlau yn y cyfnod yma, ac mae hynny'n anodd iawn i'r plant, ac rwy'n credu bod lot o bobl yn anghofio am hynny."

— (Merch, 15, Canol De Cymru)

# Beth mae'r ymatebion yn dweud wrthyn ni am yr effaith mae'r Coronafeirws wedi'i chael ar hawliau pobl ifanc?

**Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac mae'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae gan blant a phobl ifanc 42 o hawliau o dan CCUHP.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sail ar gyfer pob polisi sy'n cael ei greu ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Mae'n eglur bod effaith y feirws a'r mesurau iechyd cyhoeddus wedi arwain at llawer o bobl ifanc yn y grŵp oed yma yn wynebu rhwystrau i gael mynediad i'w hawliau.

Mae'r ymatebion a gawson ni gan bobl ifanc 15-18 oed yn yr arolwg yma'n datgelu'r canlynol:

- Bod effaith ar hawliau pobl ifanc i gael gwybodaeth (Erthygl 13) ac i gael mynediad at wybodaeth onest, ddealladwy mewn papurau newydd ac ar y teledu (Erthygl 17). Er nad oedd 38% o bobl ifanc eisiau help ychwanegol, dywedodd llawer o bobl ifanc yn yr arolwg hwn wrthyn ni y bydden nhw'n hoffi rhagor o wybodaeth, fel gwybodaeth am sut i gadw'n iach (25%), cefnogaeth ar gyfer gwaith ysgol ar-lein (23%), rhagor o wybodaeth am y Coronafeirws (17%) a rhagor o wybodaeth am reolau i gadw'n ddiogel (14%). Mae llawer o bobl ifanc wedi gwneud sylwadau bod gwybodaeth am eu dysgu ac arholiadau, a chanllawiau gan y Llywodraeth, wedi bod yn aneglur ar brydiau, a bod hynny wedi cyfrannu at eu pryderon ynghylch y dyfodol.
- Mae gan bobl ifanc hawl i fywyd teuluol (Erthygl 8). Mae pobl ifanc, fel sy'n wir am bawb ohonon ni, wedi profi newid sylweddol yn sut rydyn ni'n gweld ein teulu. Er bod llawer o bobl ifanc wedi mwynhau treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd yn byw ar eu haelwyd, dywedodd 53% o bobl ifanc wrthyn ni mai methu ymweld ag aelodau'r teulu oedd yn cael yr effaith fwyaf ar sut maen nhw'n teimlo. Mae rhai pobl ifanc, fel y rhai sy'n byw mewn gofal maeth neu breswyl, neu rai y mae eu rhieni a'u sibliingiaid yn byw ar aelwydydd gwahanol, o bosib wedi profi cyfnodau hir heb weld eu teuluoedd.
- Oherwydd y Canllawiau 'Aros Gartre', doedd pobl ifanc ddim yn gallu mwynhau eu hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau, fel bydden nhw yn arferol (Erthygl 15). Er bod llawer o bobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i siarad â ffrindiau (70%); soniwyd mai peidio â gweld ffrindiau oedd yn cael yr effaith fwyaf ar 71% o'r bobl ifanc.
- Mae pobl ifanc wedi profi newid sylweddol yn sut maen nhw'n cael mynediad i addysg gan fod llawer o'u dysgu wedi cael ei gyflwyno o bell. O ganlyniad, mae llawer o bobl ifanc yn teimlo bod effaith ar eu hawl i ddysgu (Erthygl 28). O'r holl bobl ifanc 15-18 oed a ymatebodd i'n harolwg, dywedodd 50% o'r bobl ifanc wrthyn ni mai eu hysgol neu eu coleg yn cau oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut roedden nhw'n teimlo.
- Mae llawer o bobl ifanc wedi teimlo bod effaith ar eu hawl i gyflawni hyd eithaf eu potensial addysgol (Erthygl 29) oherwydd eu bod yn methu mynychu eu lleoliad addysg, yn addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o ddysgu ac yn methu sefyll arholiadau. Dangoswyd hynny gan ddiffyg hyder pobl ifanc yn eu dysgu. Hysbysodd 72% o bobl ifanc ni eu bod nhw'n pryderu am sut byddai'r Coronafeirws yn effeithio ar eu canlyniadau arholiadau, ac roedd 52% yn pryderu am golli tir yn eu dysgu.
- Rydyn ni hefyd yn ymwybodol bod y newidiadau yn sut mae rhai gwasanaethau, fel iechyd a chefnogaeth addysg, yn cael eu cyflwyno wedi effeithio ar hawl rhai pobl ifanc i dderbyn cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant (Erthygl 23). Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc sydd angen cefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, pobl ifanc yr oedd gofyn eu bod yn gwarchod eu hunain oherwydd cyflwr iechyd corfforol, y rhai sydd angen cefnogaeth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r gallu i bobl ifanc mewn gofal maeth neu gartrefi preswyl gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd.

Roedd yr arolwg hwn yn ffordd bwysig o sicrhau bod plant a phobl ifanc ledled Cymru yn derbyn eu hawl i leisio barn ar beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd, ac i gael gwrandawriad (Erthygl 12).

---

# Crynodeb o ddyletswyddau allweddol Llywodraeth Cymru ac eraill

---

**Wrth i Gymru gael hyd i ffordd at adferiad wedi pandemig y Coronafeirws, a datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn wir yn clywed, yn gwranddo, ac yn gwreiddio dymuniadau pobl ifanc yn eu penderfyniadau polisi a'u canllawiau i'r dyfodol. Mae'n wirioneddol gadarnhaol bod ein harolwg yn ymdrech ar y cyd â Llywodraeth Cymru a bod canlyniadau'r arolwg wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y penderfyniadau a wnaed ers mis Mehefin. Fodd bynnag, mae gwranddo a chynnwys yn broses barhaus, ac mae'r briffiad hwn yn amlygu rhai meysydd allweddol ar gyfer cynnwys pobl ifanc wrth i bolisiau newydd gael eu datblygu.**

Wrth i bobl ifanc ddychwelyd at eu dysgu o fis Medi 2020 mae'n bwysig bod y canllawiau addysg mae Llywodraeth Cymru'n eu datblygu yn cael eu monitro'n fanwl i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn hyrwyddo hawliau pobl ifanc. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cael eu hannog i rannu eu barn ar eu profiad nhw o gyflwyno gwasanaethau sy'n rhan annatod o'u hawliau. Bydd hyn yn cynnwys rhoi adborth ar effeithiolrwydd, er enghraifft, Cynlluniau Nôl i'r Ysgol ar gyfer mis Medi, Canllawiau Gweithredol i Ysgolion a Chanllawiau ar gyfer Cefnogi Dysgwyr Bregus ac o dan Anfantais, a Chanllawiau Coronafeirws ar gyfer Lleoliadau Addysg Bellach a Lleoliadau Addysg Uwch.

Rwyf hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn cael ei asesu o ran effaith ar eu hawliau, gydag Asesiadau Effaith cadarn ar Hawliau Plant yn cael eu cynnal a'u cyhoeddi'n brydlon. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder i benderfyniadau a gall roi sicrwydd i bobl ifanc bod eu hamgylchiadau'n cael eu hystyried.

# Crynodeb o gamau blaenoriaeth y Comisiynydd / gamau nesaf a argymhellir:

**Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan bobl ifanc 15-18 oed yn yr Arolwg Coronafeirws a Fi, rwy'n credu y dylai Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a lleoliadau addysg ystyried cymryd y camau canlynol.**

**Mewn ymateb i'r pryderon addysgol a gododd pobl ifanc gyda ni, dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru:**

1. Sicrhau eu bod yn gwrandao ar brofiadau a safbwyntiau pobl ifanc fel rhan o'r adolygiad annibynnol o arholiadau, a sicrhau bod unrhyw ymgeisydd sydd am ailsefyll cymwysterau yn cael gwybod bod modd gwneud hynny heb unrhyw gost bersonol;
2. Ystyried y ffordd orau o gefnogi pobl ifanc gyda'u dysgu wrth symud ymlaen. Ddylai pobl ifanc sydd eisoes wedi colli cryn dipyn o addysgu ddim wynebu pwysau diangen i gwblhau cyrsiau llawn;
3. Sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad at y dyfeisiau angenrheidiol i gefnogi dysgu gartref, a mynediad i'r rhyngwyd;
4. Cydnabod bod arholiadau yn cael effaith sylweddol ar hyder, hunan-barch a llesiant pobl ifanc. Dylid craffu hefyd ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) fel cyfle i Gymru sefydlu fframwaith deddfwriaethol sy'n gofyn bod asesu allanol yn gweithredu er lles pennaf plant a phobl ifanc. Byddai dyletswydd sylw dyledus i CCUHP yn un ffordd o gyflawni hyn.

**Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan bobl ifanc 15-18 oed nad yw'r wybodaeth maen nhw'n ei derbyn bob amser yn glir, nac yn troi o gwmpas pobl ifanc, dylai Llywodraeth Cymru:**

1. Hyrwyddo hawl pobl ifanc i dderbyn gwybodaeth trwy sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc gyrchu unrhyw newidiadau yn y canllawiau mewn fformat priodol sy'n cymryd eu hamgylchiadau i ystyriaeth. Rydyn ni wedi gweld enghreifftiau cadarnhaol, er enghraifft y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn derbyn cwestiynau gan bobl ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar hyn a pharhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, gan sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu a'u hystyried mewn unrhyw benderfyniadau.
2. Asesu'n gadarn sut bydd penderfyniadau yn effeithio ar blant a phobl ifanc, hyd yn oed os na chaiff canllawiau eu datblygu gyda golwg ar blant a phobl ifanc, er enghraifft, canllawiau cysylltiedig ag arferion gweithio. Mae'n eglur bod rhai pobl ifanc wedi ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn eu cartrefi, megis cefnogi siblingiaid tra bod eu rhieni'n gweithio, naill ai yn y cartref, neu'n mynychu lleoliadau allweddol. Rhaid i'r canllawiau gadw effeithiau anfwriadol ar blant mewn cof.

## **Mewn ymateb i bryderon pobl ifanc ynghylch llesiant a chefnogaeth i iechyd meddwl ac emosiynol, dylai Llywodraeth Cymru:**

1. Sicrhau bod y llwybrau ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl ac emosiynol yn glir ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio cefnogaeth, os bydd angen hynny arnyn nhw. Rhaid i hynny olygu sefydlu dull gweithredu "Dim Drws Anghywir" yn achos gwasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifanc, a bod gwasanaethau'n gweithio ar y cyd i ddarparu'r math mwyaf addas o gefnogaeth i bobl ifanc.
2. Wrth i bobl ifanc ddychwelyd i'w lleoliadau dysgu, mae'n bwysig bod lleoliadau'n cydnabod bod llawer o bobl ifanc wedi teimlo bod mesurau'r Coronafeirws wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant emosiynol, ac y gallai fod angen cefnogaeth fugeiliol ychwanegol arnyn nhw. Mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd gydag ysgolion i roi dull gweithredu ysgol gyfan ar waith wrth gefnogi iechyd meddwl.

## **O ran y pryderon a godwyd gan bobl ifanc mewn perthynas â sut maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i wneud y canlynol:**

1. Sicrhau bod unrhyw newidiadau i sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn cael eu cyfathrebu'n glir i bobl ifanc. Er enghraifft, bydd llawer o bobl ifanc wedi cael profiad o dderbyn cefnogaeth o bell, cefnogaeth gan eu gweithiwr cymdeithasol neu eu gweithiwr cefnogi a grwpiau cefnogi cyfoedion. Mae'n bwysig bob pobl ifanc yn cael eu hysbysu'n rheolaidd ynghylch unrhyw newidiadau i sut maen nhw i gael mynediad i'w cefnogaeth, fel eu bod nhw'n gwybod sut mae gwneud hynny os bydd angen.
2. Parhau i fonitro'r canllawiau ar gyfer pobl ifanc sydd ddim yn byw yn yr un aelwyd â'u teuluoedd ac sydd o bosibl wedi mynd am gyfnodau hir heb weld eu teuluoedd, er enghraifft, pobl ifanc a phlant sydd â phrofiad o ofal, y mae eu rhieni wedi gwahanu, fel bod modd ystyried eu hawliau i fywyd teuluol.
3. Sicrhau bod negeseuon diogelu a chefnogaeth yn glir ac yn hygyrch i bobl ifanc. Yn achos rhai pobl ifanc, nid gartre maen nhw'n teimlo'n fwyaf diogel, ac mae rhai pobl ifanc yn gweld eisiau'r rhwydweithiau cefnogi sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel. Mae'n eithriadol o bwysig bod pobl ifanc yn gwybod sut mae cael mynediad i gefnogaeth a chynghor os bydd angen hynny arnyn nhw.